YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1892. [RHIF 56

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PEDWAR PREGETHWR ENWOG.

MAE rhyw duedd rhyfedd ynom i gymharu a gwrthgyferbynu, onid oes? tuedd naturiol feallai i holi pa un sydd fwyaf. A phwy ydy ni fel y gwnawn fwrw ein llinyn mesur felly dros enwogion byd? Mae y pedwar yn enwog, y pedwar yn onest, y pedwar wedi gwneuthur gwaith mawr a gwaith da, a byddai cystal i ni eu gadael ar hynyna feallai, rhag i ni wrth draethu barn sangu ar sodlau a chodi gwrthwynebiad.

Ond wedi dechreu, wele hai ac ati. Edrycher ar Spurgeon a Moody. Maent yn debyg ac etto yn rhyfedd o anhebyg. Yr oedd Spurgeon wedi darllen mwy ac yn fwy dysgedig. Gan Spurgeon hefyd yr oedd y llais mwyaf melodaidd. Meddianai hefyd lawer o rasusau ag oedd Moody yn amddifad o honynt. O'r tu arall yr oeddynt ill dau yn debyg o ran tymheredd, ac mewn llawer o nodweddion meddyliol a chorfforol. Meddent yr un annybyniaeth a nerth ewyllys, yr un dyfalbarhad, yr un gwroldeb, yr un cydymdeimlad eang a phob dosparth o ddynion, yr un craffder, yr un dychymyg byw—byw ond cyfyngedig; yr un hyawdledd a blaen-llymdra ymadrodd, yr un gallu hapus i wneuthur defnydd o gymhariaeth gartrefol a gafaelus, yr un tybiau anaddfed o lythyrenu ystyr y Beibl, yr un cas o bob peth oedd yn sawru o'r hyn a adweinir fel "higher criticism," yr un parodrwydd i ostwng y deall yn mhresenoldeb pob *ipse dixit* o eiddo'r Beibl, yr un dduwinyddiaeth o ran ei hansawdd, a'r un gallu anarferol i drefnu ac i osod ereill i weithio.

Ac etto, dyna Talmage. Clywir Spurgeon a Talmage yn fynych yn cael eu cymharu. Mae gan y ddau yma enwogrwydd mawr o'r ddau

tu i'r Werydd. Cynrychiolant, bob un o honynt, ffurf eithafol o'r hyn a elwir yn Iawnffyddiaeth; yr oedd gan y ddau allu rhyfedd i dynu torf; er eu bod yn anhawdd feallai i benderfynu yn mha beth arall y maent yn debyg. *Artificial*, celfyddydol iawn oedd ac yw Talmage, yr oedd Spurgeon mor naturiol ag yw natur ei hun. Mae pregethau Talmage yn cael eu troi allan *to order*, ac fe'u trefnir mor gyfrwys a phe baent hwyliau llong i ddal yr awelon poblogaidd; yr oedd pregethau Spurgeon yn ffynonellu allan o'i galon a'i brofiad ei hunan, allan o'i gredo mor naturiol a digelfyddyd ag y ffrydia'r nant o'r ffynon. Fe ddywed Talmage lawer o bethau ag ydynt ynddynt eu hunain yn llawn mor ddysglaer ac mor darawiadol a dim a gawsom erioed gan Spurgeon; ond rywfodd teimlwn fod yna rywbeth yn annaturiol ynddynt a dweyd y lleiaf. Cawn Talmage yn wastad yn awgrymu y goleu coch, y taranau alcan, mellt y fflasc powdwr fel yn y *theatre*; tra y mae Spurgeon mor naturiol a natur ei hun, ei daranau a'i fellt, ei storm a'i heulwen, ei oleu a'i gysgod, fel y teimlwn eu bod yn wastad yn gynyrch ei deimlad ei hun. Yn mherthynas i wir werth gwaith y ddau ddyn, y casgliad amlwg yw fod Spurgeon yn sefyll nid yn unig uwchlaw Moody ond uwchlaw yr actor Talmage hefyd.

Cyn marw Henry Ward Beecher, yr oedd yn beth cyffredin i gymharu Spurgeon a Beecher. Anhawdd yn wir cymharu y ddau, nid cymhariaeth geir yma, ond gwrthgyferbyniad. Maent mor wahanol bron yn mhob peth. Tybiwn eu bod yn debyg o ran eu gonestrwydd a'u cywirdeb. Yr oeddynt yn hynod debyg hefyd mewn hyawdledd geiriau. Meddent alluoedd desgrifiadol rhagorol, a rhwyddineb a naturioldeb mewn cymhariaethau, ac arabedd parod. Ond yn eu caracter cyffredin, a nodweddion eu hyawdledd, yn nghwmpas a theithi neillduol eu meddwl, ac yn nodweddion meddyliol y ddau ddyn, byddai yn anhawdd taro ar ddau yn gwahaniaethu mwy. Mewn ystyr, cul ydoedd meddwl Spurgeon. Nad beth fyddai ei bwnc, ebe Dr. Parker, ac nad beth fyddai'r achlysur, pregethai yn wastad yr hyn fyddai yn ei gwaelod yr un bregeth. Yr oedd gan Beecher un o'r meddyliau eangaf, cyfoethocaf, ffrwythlonaf ei oes. Dogmatist o'r gwraidd, hyny yw, un yn rhedeg ar linellau haerdybiol oedd Spurgeon; tra'r oedd gan Beecher enaid rhydd, dilyfethair, yn gymmaint carwr rhyddid deallol ac ysprydol a neb yn un oes. Darllenai Spurgeon lawer, ar hyd ychydig linellau, a dim ond a fyddai mewn cyssondeb a'i gredo ond grefyddol. Darllenai Beecher bob peth—yr oedd yn *omnivorous*,—gwyddor, celfyddyd, llenyddiaeth, barddoniaeth, ffughanes, y Beibl, holl Feiblau'r byd, y natur ddynol yn ei holl eangder, o'r baban i'r athronydd, o'r cawell i'r senedd, o'r labrwr tlawd hyd y miliwnydd cyfoethog, a natur yn ei chylch eangaf, o'r briallu yn ymyl dwr hyd ddysglaer ser y ffurfafen bell, gwnai lyfrau o'r rhai hyn oll, ac nis blinai arnynt byth.

Carai Spurgeon yn wastad edrych yn ol. *Backward looker* oedd. Yr oedd ei Eden yn y gorphenol. *Forward looker* oedd Beecher. Gwynebai ar ei Eden yn y dyfodol; a rhag eu blaen y ceisiai arwain ei ganlynwyr. Felly gellir nodi ei fod yn ansawdd ei feddwl yn dyfianol. Mae tyfiant a chynydd i'w gweled yn ei dybiau crefyddol.

Daeth yn naturiol iddo ef dderbyn Darwiniaeth yn ei ystyr eangaf, ei ystyr diweddar; ac felly daeth yn angen arno i adgyfaddasu holl gyfundrefn ei feddyliaeth grefyddol a'i ddwyn i gydgordiad a'r ddamcaniaeth Ddarwinaidd Yr oedd Beecher yn waredwr a rhyddhawr. O'r braidd y gallwn ni feddwl fod Spurgeon yn deall ystyr diweddar y gair *emancipator*. I Beecher yr oedd Duw uwch pob peth arall yn Dad, a pherthynas dyn a Duw yn ei olwg ef oedd perthynas plentyn i'w rieni. I Spurgeon yr oedd Duw uwch pob peth arall yn Frenin, a pherthynas cyntefig dyn i Dduw ydoedd deiliad. Cychwynodd Spurgeon yn Galfiniad a therfynodd yn Galfiniad, heb wneuthur i bob ymddangosiad gymmaint a modfedd o flaen fynediad yn ei feddyliaeth yn holl ystod deugain mlynedd ei weinidogaeth; ac yr oedd yn drist hwnt i bob desgrifiad yn nhymhor diweddaf ei oes, am nas gallai gadw meddyliaeth grefyddol ei wlad mor ddi-flaen-fynediad a'r eiddo ei hun. Cychwynodd Beecher yn Galfiniad, ond dropiodd ymaith yn raddol un ar ol y llall, nodweddion celyd, annaturiol ac afresymol y gredo a ddysgodd gan ei dad, nes y daeth o'r diwedd i fod yn hollol oddieithr mewn enw, ac mewn llinell gyda'r hyn a adwaenir heddyw fel Cristionogaeth berffaith rydd a dilyfethair.

Tra nad oedd gan Spurgeon gan hyny yr un lle fel arweinydd mewn rhyddfeddyliaeth grefyddol, nac wedi esponio yr un dyrys bwnc crefyddol oblegid ei fyw ef yn fwy na phe buasai heb fyw; yr oedd Beecher o'r tu arall yn amlwg ac yn eglur yn feddyliwr, ac yn arweinydd blaen fynedol, yn gosod ei nod ar ei oes, ac yn gwneuthur gwaith pwysig tuag at ddwyn Cristionogaeth i adgyfaddasiad cydgordiadol â meddyliaeth ac angenion ein hoes. Pregethai Beecher a Spurgeon i gynulleidfaoedd mawrion, gartref a lle bynag arall yr elent. Darfu iddynt ill dau adeiladu eglwysi mawrion. Spurgeon oedd y trefnydd goreu, a dichon ei fod yn fwy deniadol i'r annysgedig a'r lluaws o'r bobl. Ond yn eangder ac amrywiaeth a dysglaerder ei araethyddiaeth, yn nghyfoeth ei feddwl yr oedd Beecher yn gadael Spurgeon ar ol mor bell fel nad oedd yn gadael un sail i wneuthur un gymhariaeth rhwng y ddau. Yn wir yr oedd y gwahaniaeth yma yn wastad cydrhyngddynt, fel ag i'w nodi allan fel rhai yn perthyn i ddau ddosparth gwahanol hollol o ddynion. Tynai Spurgeon o'i amgylch yr hyn y gallwn eu galw yn "gredinwyr," rhai yn derbyn ei gred a'i athrawiaeth; tynai Beecher ar ei ol ddosparth o feddylwyr. Dylanwadai Spurgeon ar nifer fawr o bobl gyffredin o'r ddau ryw, tra'r oedd Beecher yn dylanwadu, heblaw ar nifer luosog o ddynion cyffredin, ar nifer mawr iawn hefyd o bobl annghyffredin—pobl oeddynt yn moldio syniadaeth y cyhoedd ac yn cymmeryd lle arweinwyr eu hoes. Yr oedd dylanwad Beecher ar y byd yn llawer eangach, dyfnach, a mwy parhaol nag oedd yn bossibl, yn ol natur pethau, i eiddo Spurgeon fod.

Dyna ni wedi cymharu ac wedi gwrthgyferbynu. Barned ereill fel y mynont, a thynent eu casgliadau eu hunain. Eisieu rhagor o ddynion mawrion sydd arnom, dynion i arwain y byd yn y blaen at y pethau uwch a'r pethau gwell; ac eisieu i ninau, y dynion bychain, i gyflawni ein rhan ein hunain yn y cylch y gosodwyd ni ynddo, yn onest, yn

ddifrifol, ac yn ddi-droi-yn-ol. Defnyddiwn y dalent a roddes Duw i ni yn y cyfryw fodd ag y gallwn gyda rhyw sail i obeithio am gymmeradwyaeth, ac nid annghymeradwyaeth, y Barnwr mawr.

S.

ADGOF UWCH ANGHOF.

Yn iach i'r chwaer anwyl, gorphenodd ei dydd,
Bu'n ffyddlon bob amser i'w phader a'i ffydd ;
Er pob cais i'w hudo trwy wen neu trwy wawd,
Mewn hedd a llawenydd daeth terfyn ei rhawd.

Er ffrost mawr cym'dogion am arian ac aur,
Yn ffyddlon i'w ffydd megys merthyr bu Mair ;
I'r Unduw ymrwymodd yn moreu ei hoes
A'r Unduw a'i daliodd dan lawer gwynt croes.

Er cwrdd ag anghariad, er dyoddef peth cur,
Er byw'n dlawd i'r diwedd, er hyny byw'n bur ;
Cadd felly dangnefedd cydwybod o hyd,
Dawn mil gwerthfawrocach na chyfoeth y byd.

Fe'i gelwid hi'n *Sosin*, a gwawdid ei chred,
A'r anair a daenid gan luoedd ar led ;
Ond er gwawd a gwatwar, pan ddaeth ati'r wys,
Y Cyfaill mewn Angen oedd barod ar bwys.

Y Wers yw : Bydd ffyddlon, er gwaethaf pob croes,
I Dduw a chydwybod hyd derfyn dy oes ;
Cei fêl yn lle'r wermod, cei glywed y llef,
Dos mewn i dragwyddol lawenydd y nef.

Mehefin 4. S.

Y LLEF DDYSTAW FAIN.

Mae yr hanes a geir yn 1 Sam. iii. 1—10, yn hanes bachgen y dywedir iddo, pan yn ieuanc iawn, gael galwad arbenig i wneyd gwaith arbenig. Fy amcan, ~~wrth ysgrifenu hyn, yw meddwl am~~ ddynion ereill ~~ydynt wedi cael~~ galwad bennodol at eu gwaith mewn bywyd, ac a ufuddhasant i'r alwad hono, fel y gwnaeth Samuel.

Oddeutu 1500 mlynedd yn ol, yr oedd crwtyn bychan o'r enw Succath yn byw gyda'i rieni mewn pentref tawel yn Ysgotland, yn agos i Dumbarton. Dygwyd ef i fyny i gredu yn y grefydd Gristionogol, gan fod ei dad yn ben ar y cyfundeb bychan Cristionogol yno, a bywyd dihelynt a hapus iawn a arweiniai efe. Ond ryw ddiwrnod, darfu i yspeilwyr ffyrnig, yn ceisio am gaethweision ac yspail arall, dirio yn y pentref bychan lle yr oedd Succath yn byw; cipiasant ef ymaith oddiwrth ei rieni a'i gartref clyd, a gwerthasant ef fel caethwas i un o'r penaethiaid yn ngogleddbarth yr Iwerddon. Yma y trigianai, yn mysg pobl hanner gwareiddiedig, na wyddent ddim am y grefydd ag oedd wedi dyfod mor anwyl iddo yn ystod chwe' blynedd. Pryd hyny, efe a lwyddodd i ddianc a chael ei ffordd yn ol i'w hen gartref drachefn. Ond nis gallasai mwyach fwynhau y tawelwch a'r hapusrwydd ag oeddynt yn nodweddu y cartref hwnw, a phaham? Siaradai llais yn ei galon ag a ddywedai wrtho y dylasai fyned yn ol at y bobl dlodion hyn, a dysgu iddynt y ffordd burach a fynwesai ef ei hunan, a thrwy hyny i sirioli eu bywydau, a'u gwneyd hwy yn blant mwy teilwng o'r Tad hwnw oedd yn gofalu hyd y nod am danynt hwy, ond yr hwn nas adwaenent. Ceisiai ei gyfeillion ei ddarbwyllo nad oedd galwad arno i helpu y bobl oeddynt wedi ei drin mor greulon, ac yn mhlith y rhai yr oedd efe wedi dyoddef cymmaint; ond yr oedd y llais o'r tu fewn yn rhy gryf i'w wrthwynebu. Felly, efe a adawodd ei gartref tawel a'i holl gyfeillion unwaith yn ychwaneg; y waith hon, yn ol ei ddewisiad ei hunan, a chyflwynodd ei holl fywyd i arwain ereill i ffydd fwy pur, a thrwy hyny i ddyndod mwy sanctaidd. Yn sicr, efe a dderbyniodd alwad arbenig at ei waith, ac a ufuddhaodd iddi. Y bachgen hwn oedd Patrick, apostol yr Iwerddon.

Fe wyr y rhan fwyaf ~~o'n darllenwyr ieuainc~~ fod caethion yn y wlad hon ar un adeg yn cael eu prynu a'u gwerthu: bodau dynol, y dylasai eu meddyliau fod mor rhydd a'r awel oeddynt yn anadlu, yn cael eu cyfnewid am arian! yn cael eu gorfodi i weithio fel peiriannau, a'u trin yn aml fel rhai na feddent nemawr fwy o deimlad. Ar ol llawer o waith caled, rhoddwyd terfyn ar y stad hon o bethau yn Lloegr; wedi hyny, yn yr holl ynysoedd a berthynent i Loegr; ond bodolai y gaethfasnach o hyd yn yr America. Yno yr oedd wedi ymwreiddio mor ddwfn, ac wedi ymsefydlu mor drwyadl, fel ar berygl bywyd y gallasai neb godi ei lais yn ei herbyn. Ond er gwaethaf holl beryglon, yr oedd un dyn yno yn ddigon dewr i wrthwynebu'r fasnach, ac i weithio a holl frwdfrydedd ei enaid i roddi terfyn arni. Erlidiwyd ef, a hanner lladdwyd ef fwy nag unwaith, a'r un fath y gwnaed a'r sawl oedd yn ei helpu; ond yn mlaen yr aeth ef a'i waith, ac efe a lwyddodd. A pha beth, debygwch chwi, a barodd i William Lloyd Garrison ymgymmeryd â'r gwaith mawr hwn, ac i ymlynu wrtho er gwaethaf pob rhwystrau: yr un llef ddystaw fain yn siarad wrth ei enaid ac yn dweyd,—"Dyma eich brodyr a chwiorydd, gwnewch yr oll a alloch er eu gwneyd yn blant rhydd a dedwydd Duw." Ac ni lefarodd y llais yn ofer. Gwrandawyd ef, a chafodd ufudd-dod.

Carwn eich adgofio chwi o un esiampl arall, a hono yw yr oreu y

gwn I am dani. Yr wyf yn cyfeirio at Iesu ~~Grist~~ o Nazareth. Pan ond plentyn bach, llefarodd y llais wrtho, gan beri iddo deimlo y dylasai wneyd gwaith ei Dad, yn peri iddo hiraethu am fod o fendith i'r sawl oedd efe yn byw yn eu plith, yn peri iddo ymawyddu i'w codi hwynt o dywyllwch a chaledwch, i'r rhai yr oedd eu crefydd wedi eu harwain hwynt, i oleuni cariad eu Tad. Tyfai yr hiraeth hwn gyda'i dyfiant ef, hyd nes y daeth yn amcan sefydlog, gan flaguro yn fywyd o ymroddiad hollol i hawddfyd ei gydgreaduriaid ac o ymgyflwyniad perffaith i ewyllys ei Dad. Galwyd ef yn arbenig at y gwaith godidocaf, a rhoddodd yr oll ag oedd ganddo, ac yn y diwedd, ei fywyd ei hunan, i gyflawni y gwaith hwnw, yn y gobaith sicr y cyrhaeddid rywbryd yr amcan ag oedd ef yn ymorchestu am dano, er na chawsai efe fyw i'w weled. Ond beth sydd gan hyn i gyd i ymwneyd â ni? Mae cannoedd a channoedd o flynyddau er pan lefarodd Duw wrth yr Iesu, gan ddangos iddo y gwaith y danfonwyd ef i'r byd i'w gyflawni. Ac a ydyw Duw wedi gorphen siarad â'i blant, ~~dybiwch chwi~~? Yr ydym yn siarad llawer iawn, ac yn canu mwy weithiau, am agosrwydd Duw tuag atom; ond yr ydym bob amser yn meddwl am dano fel pe bai fry yn y nefoedd ac yn edrych i lawr arnom, neu yn rhywle oddiamgylch i ni, o fewn clyw: ond yn anaml yr ydym ni yn sylweddoli y ffaith ei fod Ef gyda ni. Gyda ni yn ein bywyd ~~yn yr ysgol~~, yn y siop waith, neu gartref; etto, pa le mae arnom ni fwy o'i angen nag yn y lleoedd hyn lle y temtir ni fwyaf, a lle mae fwyaf o angen nerth arnom? Pe bai genych chwi gyfaill oedd yn dymuno bod yn help gwirioneddol, bywiol, i chwi, ydych chwi ddim yn meddwl y buasai efe gyda chwi fwyaf pan oedd yr wybr yn gymylog uwch eich pen, a phan oedd fwyaf o angen arnoch ei gydymdeimlad a'i gariad? Ac os yw hyn yn wir am gyfaill dynol ffyddlon, ai ni raid ei fod yn annhraethol fwy gwir am ein Cyfaill Tragwyddol? Ydyw, y mae Duw gyda ni yn ein bywydau beunyddiol, ac y mae yn llefaru wrth galonau ~~ei blant yr~~ un mor eglur ag y llefarodd erioed wrth y dynion gòdidog a fuont byw ac a lafuriasant drosto yn yr amser a fu. Mae yn llefaru wrthym ni, os gwrandawn ar ei lais; mae ganddo waith arbenig i ni i'w wneyd, gwaith na all neb ei wneyd drosom; os y camdreuliwn ni y cyfleusdra sydd yn eiddo i ni, fe erys y gwaith byth heb ei gyflawni; fe fydd y byd yn dlotach yn niffyg y gwaith hwnw, a ni a fyddwn yn blant mwy annheilwng o'r Tad sydd yn ein bendithio ni yn fwy haelionus nag a allwn ni gydnabod. Gall y gwaith a roddir i ni beidio bod mor bwysig a'r hwn a roddwyd i weithwyr godidog ereill yn ngwinllan Duw; gall beidio galw am gymmaint o hunan-aberth, ond y mae yr un mor gyssegredig, yr un mor anghenrheidiol i'r byd, ~~neu ni fuasid erioed wedi ein danfon ni i'w wneyd~~. Gall na fydd i'n henwau gael eu trosglwyddo i lawr ar dudalenau hanes, ond bydd byw yr yspryd yn yr hwn yr ydym wedi llafurio, a'r brwdfrydedd roddasom yn y gwaith, yn nghalonau y sawl ydym yn adael ar ol, gan eu helpu i weithio yn fwy egniol, ac felly y gwnawn ni ein rhan tuag at ddwyn teyrnas Dduw i'r byd: yr amser pan fydd gwybodaeth o hono i orchuddio y ddaear fel mae y dyfroedd yn toi y moroedd. Yr hyn wyf fi am i ~~chwi~~

wneyd yw hyn:—Gwrandaw ar y llais hwnw oddifewn i chwi, a phan y clywn ef, i beidio cilio mewn ofn, na pheidio myned heibio iddo yn ddifater; ond i fod yn barod i roddi ein holl galon, ïe, os bydd angen, i dreulio ein bywyd i wneyd y ddyledswydd y mae'r llais yn gyfeirio tuag ati. Pan lefara Duw wrthych chwi a minau, boed i ni fod yn barod i ateb yn yr ysbryd yn yr hwn yr atebodd Samuel bach,—"Llefara, O Dad, oblegyd mae dy was yn clywed."

S. A. M.

RHYS MORGAN O BENCRAIGNEDD.

"Coppi o wyth englyn unodl union a anfonodd efe at George Varier y clockmaker wrth Bontneddfechan o awdurdod neu order i wneuthur Atgofgloch neu gloch yn ol y darluniad sydd yn canlyn:

"Siors ber Farier bur fwriad cynhil
Cenew digymhariad,
Cynhilaf glewaf o'n gwlad,
I'th elwir di o'th alwad,

Ceist ebrwydd dde rhwydd dda rhodd ddi farus
I fwrw yr amserodd
Mewn delw fud mewn dilai fodd,
Medr i roi croyw ymadrodd,

Gwna ddelw grech loyw frech lan oll yn hawddgar
A llygad brith llydan,
A chloch hyspys gofys gan,
A thongciwr i'w ei thingcian,

Sef cloch atgofgloch o glau ddiwid swn,
I ddadsain yr oriau
Mwy nodol a'r mynedau
A'r dydd sydd yn neshau,

Cloch ddeffro Cloch o Gloch i alw i lawr
Cloch lowrio heb waeddi,
Mae mwyth ar fy nhylwyth i,
Cadarn ar y pryd codi.

Cloch etto gofio yn gyfan brydiau
Barodi bwyd allan,
Na lefo'n gas mo'm gwas gwan,
Newynllyd yw dy winllan

Cloch olaf henwaf hyny, cloch cyfnos,
Cloch cefneu i fyny
Cloch dadlwyth tylwyth ym Ty
Cloch gwiliad cloch y gwely.

Am fi'r dyn yn dymuno, gwna ddol
Ne ddelw a lefaro
Pryd sy [sydd ?], pryd fydd, a'r pryd fo,
Dilai cai genni dalo.—

Rhys Morgan o Bencraignedd,
yn Llangattwg yn Morganwg a'i cant.
[allan o Ddeonglydd y Ser, neu Almanac
John Prys am 1758]

"LEAD, KINDLY LIGHT."

Mr. Gol.,—

Y mae yr emyn hwn, a gyfansoddwyd gan y diweddar Cardinal Newman, yn dra adnabyddus, ac yn cael ei edmygu yn fawr gan ddynion deallus yn mhlith y gwahanol enwadau. Y mae cyfieithadau o hono gan wahanol bersonau i'r Gymraeg; yr wyf wedi darllen amryw o honynt, ac yr wyf yn ystyried eu bod fel cyfieithadau, braidd oll, cystal ag y gellir dysgwyl. Wrth gwrs, y mae rhai o'r cyfieithwyr wedi bod yn fwy llwyddiannus na'u gilydd. Ond er wedi darllen y gwreiddiol yn ogystal a'r cyfieithadau lawer o weithiau, mor ofalus ag y medrwn, yr wyf wedi methu deall beth sydd yn yr emyn yn teilyngu sylw ac edmygedd mor gyffredinol, os nad eithafol hefyd. Rhaid mai ynof fi, fel *plain, blunt man*, y mae'r diffyg, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe cynnorthwyai rhywun neu rywrai fi ar dudalenau Yr Ymofynydd i weled ei ardderchogrwydd, a hyny yn annybynol ar enwogrwydd ei ddiweddar awdwr.

Flynyddau lawer yn ol, gofynodd un o'r enw W. A. Greenhill i Dr. Newman beth oedd ei feddwl yn y ddwy linell olaf o'r emyn dan sylw, sef—

> "And with the morn those angel faces smile
> Which I have loved long since, and lost awhile."

Mewn atebiad, ysgrifenodd Dr. Newman fel y canlyn, a chafodd ei lythyr ymddangos yn yr *Academy*, mewn pa rifyn o hono nis gallaf ddweyd, ond yn gymharol ddiweddar :—

The Oratory, Jany. 18, 1879.

My Dear Dr. Greenhill,

You flatter me by your questions; but I think it was Keble who, when asked in his own case, answered that poets were not bound to be critics or to give a

sense to what they had written ; and though I am not, like him, a poet, at least I may plead that I am not bound to *remember* my own meaning, whatever it was, at the end of almost fifty years. Anyhow, there must be a statute of limitation for writers of verse, or it would be quite a tyranny if, in an art which is the expression not of truth but of imagination and sentiment, one were obliged to be ready for examination on the transient states of mind which come upon one when homesick or seasick, or in any other way sensitive or excited. I fear Pusey's health is very precarious, but his mind is quite as active as ever.—Yours most truly,

JOHN H. NEWMAN.

Yn y *Journal*, nid wyf yn cofio pa gymmaint o amser yn ol, ymddangosodd y llinellau canlynol, yn nghyd â chyfieithad neu efelychiad o "Lead, Kindly Light," uwch yr enw A. S. Thomas (Anellydd), Crugybar. Gobeithio na fydd yr awdwr, os y daw byth i wybod, yn anfoddlon i mi am eu trosglwyddo i'r YMOFYNYDD :—

"Diau fod y mwyafrif o ddarllenwyr y *Journal* yn gwybod yr hanesyn dyddorol yng nglyn â'r emyn digymmar, "Lead, Kindly Light," cyfieithad neu efelychiad o ba un ydyw'r llinellau canlynol a wnaethym wedi darllen am farwolaeth y clodfawr a'r coeth Cardinal Newman. Dywedir iddo eu cyfansoddi ar y noson cyn ei enciliad o Eglwys Loegr, a'i enaid fel yng nghanol niwl ofnau ac ammheuon. Trist i'r fath wr duwiolfrydig ac athrylithgar gymmeryd ei ddylanwadu, fel ag y bu iddo fyn'd i Eglwys Rufain. Dengys hyn fod yn bosibl i'r dynion mwyaf galluog, pwyllog, a phur wyro oddiar yr uniawn lwybr, fel y gwnaeth ef, os bydd cyfeiliornadau a gau athrawiaethau wedi dallu llygaid eu meddwl nes methu teimlo dylanwadau, a cholli arweiniad y goleuni sydd oddi fry. Addefir yn gyffredinol fod yr emyn dan sylw gyda'r mwyaf tyner, prydferth, ac ysbrydol a gyfansoddwyd erioed,—

"Fwyneiddiol Wawl, trwy'r gwyll o'm deutu sy',
Dwg Di fi 'mlaen ;
Mae'n dywyll nos, a phell yw'm cartref cu,
Dwg Di fi 'mlaen.
O cadw'm traed ; nid wyf yn ceisio am
Yr olwg draw ; 'rwy'n foddlon ar un cam.

"Fel arall bûm, heb erfyn am dy wawr
I'm dwyn yn mlaen ;
Fy llwybr fynwn weled gynt ; ond 'nawr,
Dwg Di fi 'mlaen,
Y coeg-ddydd garwn, ac, er ofnau lu,
Fy mryd oedd falch : na chofia'r blwyddi fu.

"Dy nerth a'm daliodd cy'd, gwn eto gwna
Fy nwyn I 'mlaen ;
Dros fryn a chraig, a ffrydlif chwyrn, nes â
Y nos yn lân.
A'r boreu ddaw a gwenau'r engyl iach,
A gerais gynt, ond gollais enyd fach !"

Mae cyfieithad Anellydd yn darllen yn rhwydd a naturiol ddigon, a chredaf, pe mewn cystadleuaeth, y byddai yn sefyll yn uchel yn marn pob beirniad rhesymol. Ar yr un pryd, rhaid i mi ddweyd nad yw y gair "Fwyneiddiol" yn y llinell gyntaf yn hollol wrth fy modd, na'r glymair "Coegddydd," yn yr ail bennill. Yr wyf yn barnu fod y frawddeg, "*I loved the garish day*," wedi peru cryn drafferth i'r cyfieith-

wyr, a digon tebyg nad oes yr un cyfieithad o honi yn drosglwyddiad hollol gywir o'r gwreiddiol.

Yr wyf yn ystyried mai *ysmotyn* ar gyfieithiad campus D., yn *Llyfr Emynau Mawl a Gweddi*, yw "Dydd tanbaid garwn." William Richards, yw *fiery, hot, fervent, violent, vehement.*

Mae Mr. Walter D. Jeremy, M.A., Bargyfreithiwr, fel llawer ereill wedi cael ei swyno gan yr emyn hwn, ac wedi ei Gymreigio. Mae hwn etto yn gyfieithad rhagorol, oddigerth "bydol ffos" am "*amid the encircling gloom.*" Trueni na fuasai'r Awen wedi dweyd wrtho am ysgrifenu—

Oleuni mwyn y Nef,—trwy'r niwl, O dos
I'm arwain I.

Wrth "*garish day,*" mae Mr. Jeremy yn deall "byd gwyn," a thebyg mai rhywbeth yn y cyfeiriad yna olygai Dr. Newman. I'm tyb I, ond na chymmered neb hi uwchlaw ei gwerth, ac na fydded i'r awgrym gael ei gymmeryd yn anngharedig gan y cyfieithydd, yr wyf o'r farn y byddai y ddwy linell olaf yn darllen yn well lel hyn,—

Ac, yn y perffaith ddydd, gymdeithas lon
Anwyliaid gollais ar y ddaear hon.

Nid beirniadu y cyfieithiadau oedd fy amcan pan ddechreuais ysgrifenu, ond yr wyf wedi ymylu ar hyny, os nad wedi troseddu ar y maes beirniadol, er yn amddifad o'r cymhwysderau at y gwaith, nad sut yr ymdarawaf; ond fy amcan oedd ceisio cynnorthwy i ddeall nes teimlo wrth ddarllen yr emyn dan sylw fel y gwna dynion eraill, os nad i'r fath raddau â hwynt, etto i fod yn alluog i uno yn y ganmoliaeth gyffredinol a roddir iddo fel "emyn digymmar, gyda'r mwyaf tyner, prydferth, ac ysbrydol a gyfansoddwyd erioed." Cynnorthwywch fi, chwi feirddon a darllenwyr craffus; ac os oes ynof ddiffyg nas gellir ei gyflenwi yn mherthynas i emyn Dr. Newman, tosturiwch wrthyf.

I chwyddo nifer y cyfieithiadau, wele yn canlyn un yn chwaneg, na argraffwyd o'r blaen; ac, os na fydd genych fater mwy pwysig a dyddorol i lanw eich misolyn, wele ef, Mr. Golygydd, at eich gwasanaeth:—

Garuaidd Wawl, drwy'r niwl o gylch sy'n llawn
O arwain fi!
Pell wyf o dref, a'r nos sy'n dywell iawn—
O arwain fi!
Goleua'm traed—nid golygfaoedd pell,
Mewn t'wyllwch mawr un dyogel gam sy'n well.

Yn annoeth gynt dy geisio byth ni wnawn
I'm arwain I,
Dewiswn ffordd fy hun—ar hyd-ddi'r awn,
'N awr arwain fi!
Tra-nwyfus o'wn, a balch er ofnau mawr,
Fy meiau gynt. O maddeu hwynt yn awr!

Di'm nerthaist hyd yn hyn—rho etto nerth
I fyned dros
Afonydd, creigiau, a chlogwyni serth
Tra phery'r nos :
A chyda'r wawr yn gwenu arnaf fydd
F' anwyliaid gynt, yn ngwlad tragwyddol ddydd.

Hen Ohebydd.

DWEYD NEU PEIDIO DWEYD.

Gwyr y rhan amlaf o honom beth yw cael ein meddwl at ei gilydd awr yn rhy ddiweddar. Mae yr ateb disglaer na ddarfu i ni fynegu pan y cawsom gyfle yn ein llanw à blinder. Pa mor aml y mae ein balchder wedi dyoddef wrth ein bod yn cymharu yr araeth ffol a wnaethom â'r araeth alluog y gallasem fod wedi ei gwneyd. Mae ein cywilydd am fod rhyw sylw o'n heiddo yn wan yn dygwydd yn aml ; ond pa mor anfynych yw y gofid a deimlwn am fod y sylw hwnw yn llym ? Mae diffyg dealldwriaeth yn peru mwy o boen i ni na diffyg caredigrwydd. Etto, ar ddiwedd yr wythnos, synir llawer gwr a gwraig, pan y dygir hwy i hunan-feddiant, gan nifer yr areithiau annymunol y maent wedi bod yn euog o honynt, nid yn unig i'w cydnabod a'u cymmydogion, ond hefyd i'w cyfeillion a'u teulu. Nid yw yn un esgusawd i'r dyn ei fod wedi dweyd y gwir. Ni ddylid dweyd hyd y nod y gwir bob amser. Yn ol Matthew Arnold, mae yn arwydd o wrtaith i wybod pa bryd i ddweyd eich gwir. Ai nid yw yn rhagor na hyny ? Ai nid yw yn dystiolaeth o garedigrwydd ac ystyriaeth ?

Ni elwir arnom, fel rheol, i ddweyd gwirioneddau annymunol. Ni chynnwysant un mater o egwyddor. Nid oes ynddynt un pwnc y mae yn ddyledswydd arnom i ddatgan ein hargyhoeddiadau arno, ac i ddiffeinio y cyflwr y safwn ni ynddo. Ar y llaw arall, maent fynychaf yn arwydd o ddiffyg hunan-lywodraeth, ac anallu i ffrwyno y tafod. Afraid yw dweyd mai po amlaf y porthwn ni ryw arferiad, dyfnaf i gyd yr ymwreiddia, ac anhawddaf i gyd ei thori. Mae y cyfryw sylwadau, nid yn unig yn niweidiol i'r siaradwr, ond maent hefyd yn niweidiol i'r gwrandawr. Mae y sylwadau diamcan hyn—mae y feirniadaeth anystyriol hon—yn digaloni pobl. Nid bai bychan yw achosi poen yn y fel hyn, yw dweyd wrth ein cyfeillion yr hyn a fydd yn sicr o ddod yn ol i'w meddyliau ar adegau o wendid, i'w gwneyd yn wanach fyth.

Mae ochr arall, fodd bynag, i'r cwestiwn hwn. Mae lluaws o bobl ag ydynt wedi dysgu llywodraethu eu tafodau i beidio siarad gwirioneddau a fyddont yn peru niwed heb erioed eu dysgu i yngan gwirioneddau hyfryd a dymunol. Tra nad ydynt un amser yn digio, 'dyn nhw byth yn rhoi pleser. Digon tebyg fod llawer ag ydynt yn hollol ddystaw gyda golwg ar ddygwyddiadau bychain bywyd beunyddiol—a wnaent aberth wirioneddol—a wnaent dreulio arian, llafur, ac amser dros eu cyfeillion. Mewn adeg o gyfwng, byddent wrth law yn union

Ond ychydig yw yr achlysuron mewn bywyd. Ambell waith iawn mae arnom ni eisieu aberthau mawrion. Blinfydau mawrion, anaml y deuant. Gwneir ein bywyd i fyny o bethau bychain— o ddygwyddiadau bychain. Yr hyn sydd yn eisieu arnom yw y gefnogaeth a'r cydymdeimlad beunyddiol sydd yn peru i'r olwynion redeg yn esmwyth : yr ychydig ddyferynau o olew yn cael eu tywallt yn aml yn hytrach na chwart o hono unwaith bob blwyddyn.

Mae dynion yn ymesgusodi ar y tir na allant dalu *compliments*. Sawra yr arferiad o ddweyd pethau dymunol iddynt o annidwylledd. Mae yn syndod meddwl pa mor dyner yw y gydwybod ar y pwnc hwn. Nid ydym yn petruso dangos ein hanfoddlonrwydd! Sut y mae hi yn llai didwyll i ddatgan ein pleser? Mae siarad gair o gefnogaeth, mae dangos ein bod ni yn gwybod am yr ymdrech feunyddiol, am dreialon a llwyddiant y rhai ydynt o'n hamgylch, yn sicr yn mhell o fod yn *gompliments* gweigion. Nid oes ofn yr awn ni yn orfelus yn ein hymadrodd. Nid oes perygl i fwyafrif gwyr a gwragedd fod yn rhy dyner neu yn rhy ystyriol o'u cyd-ddynion.

Yr ydym yn derbyn ymdrechion a ffafrau pobl ereill fel pe baent yn ddyledus i ni. Yr ydym yn eu gosod yn ein hamcan-gyfrif o ddyledswydd pobl ereill tuag atom, ac nid ydym yn gwneyd unrhyw sylw o honynt hyd nes y peidiant. Pryd hwnw y dysgwn fod gwahanol raddau o ffyddlondeb i'w cael. Pryd hwnw y sylweddolwn ein bod ni wedi derbyn pobpeth yn awchus, ac heb gael y gras hyd y nod i ddiolch. Dywedai athrawes unwaith am ei huwch-swyddog, dyn a wnai ei oreu i fod yn gyfiawn, ond byth yn garedig, "Ddeuais I erioed i ddeall p'un a oedd ef yn foddlon ar ddim a wnaethum. Yr unig ffordd i gael allan oedd esgeuluso y gwasanaeth neillduol. Gallwn ei *wneyd* bob dydd o'r flwyddyn heb iddo sylwi arno; ond os esgeuluswn ef unwaith, byddai yn sicr o siarad am hyny." Y gwyr a'r gwragedd nad ydynt byth yn canmol, mae yn anhawdd byw gyda hwy, ac nid ydynt byth yn cael gwaith goreu neu serch dyfnaf y sawl y maent yn byw gyda hwy.

Fel rheol, nid yw pobl mor gryf fel nad yw gofalon a threialon bychain yn effeithio arnynt. Dywedir y gall yr Indiad gwrdd a marwolaeth heb wamalu, ond ei fod yn crïo fel plentyn pan mae'r ddannodd arno. Gall ei berthynasau mwy gwareiddiedig ddwyn beichiau trymion yn dawel ac amyneddgar, ond y maent yn myned yn anfoddog a nwydus dan lu o bryderon bychain. Yr ydym i gyd yn ddigon gweinion i ymofyn am gefnogaeth cydymdeimlad, ac ni fyddai gan y sawl ydynt gryfach un gwrthwynebiad i gael gair o galondid yn awr ac eilwaith.

A. M. L.

DYWEDYD Y GWIR.

Yn y flwyddyn 1777 yr oedd yn rhyfel yn yr Amerig, oherwydd fod Sior y Trydydd am ddwyn deddfau anghyfiawn i'r wlad a'r bobl yn gwrthod ufuddhau. Yr oedd yno lywydd a'i enw Griswold mewn

perygl o gael ei ddal gan filwyr y brenin, ac fe ymguddiodd mewn amaethdy, cartref perthynas iddo. Tra'n ymguddio yno, clywodd fod torf o filwyr ar y ffordd i'r amaethdy i chwilio am dano, ac os gallent, i'w ddal.

Meddyliodd Griswold y gwnelai ymdrech i gyrhaedd nant fechan gyda glanau dyfnion ar bob tu, lle'r oedd wedi gadael cwch, allan o olwg teithwyr fyddent yn myned y ffordd hono. Mewn brys mawr aeth allan o'r ty, ar fedr myned trwy'r berllan, ac yno gwelodd ferch ieuanc, tua deuddeg oed, a chi bach gyda hi. Yr oeddynt yn gwylied llatheni lawer o lieiniau orweddent o amgylch, yn yr haul, er mwyn eu gwynu. Yr oedd Hetty ar y lan, yn gwau, ac yn ymyl yr oedd twba o ddwfr, o'r hwn yr oedd yn awr ac yn y man yn gwlychu y llieiniau. Cododd yn frysiog pan ddaeth y dyn dros y clawdd, ond pan welodd mai ei chefnder oedd, ymdawelodd.

"Hetty" ebe fe "mi gollaf fy mywyd, os na chyrhaeddaf y cwch cyn daw y milwyr. Chwi welwch lle mae'r heolydd yn ymranu, yn ymyl y berllan; yr wyf am i chwi redeg i lawr hyd y nant, i gwrdd a'r milwyr, y rhai a fyddant yn sicr o ofyn am danaf, ac yna gallwch ddywedyd fy mod wedi myned i fyny i'r heol i gwrdd a'r mail cart, ac yna hwy a droant ffordd arall."

Hetty. "Ond, pa sut, gefnder, y gallaf ddywedyd celly. Ni fyddai yn wir. Oh, pam y daru i chwi ddweyd wrthyf y ffordd oeddych ar fedr myned?"

Griswold. "A fradychwch chi fi, Hetty? a edrychwch arnaf yn cael fy ngosod i farwolaeth? Clywch! dacw rywun yn d'od. Clywaf drwst traed y ceffylau; dywedwch wrthynt fy mod wedi myned i fyny i'r heol a'r nefoedd ach bendithio."

Hetty. Ni fydd y rhai a ddywedant anwiredd byth yn ddedwydd; ond ni orfodant fi i ddywedyd ffordd yr aethoch, dim pe lladdent fi —felly rhedwch gynted ag y galloch.

Griswold. Mae'n rhy ddiweddar i mi redeg. Yn mha le caf ymguddio?

Hetty. Brysiwch a deuwch dan y llian yma. Mi a'i taflaf drosoch ac af finau yn y blaen gyda'r gwlychu.

Griswold. Mi ddeuaf i lawr yn union. Fy siawns ddiweddaf yw.

Toc, fe'i cuddiwyd dan blygion trymion y llian hir. Yn mhen ychydig funydau dyma'r milwyr yn brysio i lawr gyda'u ceffylau. Gwelodd un o'r swyddogion y lodes fach a galwodd arni mewn llais uchel—welsoch chi ddyn yn rhedeg ffordd yma?

Hetty. Do, Syr.

Griswold. Ffordd aeth e?

Hetty. Mi addewais beidio dyweyd, syr.

Y Swyddog. Mae yn rhaid i chwi ddyweyd yn union, neu gwaetha i gyd fydd i chwi.

Hetty. Ni ddywedaf. Rhaid i mi gadw fy ngair, syr.

"Gadawer i mi gael gair gyda hi. Yr wyf yn meddwl fy mod yn adwaen y los fach," ebe'r dyn, yr hwn oedd arweinydd y parti.

Arweinydd. Ai Hetty Marvin yw eich enw?

Hetty. Ie'n siwr, syr.

Arweinydd. Tebyg geny mai eich cefnder oedd y dyn a redodd heibio.

Hetty. Ie'n siwr, syr, efe oedd.

Arweinydd. Wel, y mae arnom ni eisieu siarad ag ef. Beth ddywedodd e wrthych wrth basio heibio ?

Hetty. Dywedodd ei fod yn gorfod rhedeg er mwyn achub ei fywyd.

Arweinydd. Felly'n gywir. Mae'n wir bob gair. Yr wyf yn gobeithio na fydd ganddo i redeg yn mhell. Ble'r oedd ar fedr ymguddio ?

Hetty. Dywedodd fy nghefnder yr elai at yr afon i gael y cwch, a'i fod am i mi ddywedyd wrth y milwyr a ddaethant i edrych am dano ei fod wedi myned y ffordd arall i gyfarfod a'r mailcart.

Arweinydd. Merch dda ydych, Hetty, a gwyddom eich bod yn dywedyd y gwir. Beth ddywedodd eich cefnder pan glywodd na ddywedech chi gelwydd i achub ei fywyd.

Hetty. Dywedodd, A wnaech chi mradychu i, a'm gweled yn cael fy ngosod i farwolaeth ?

Arweinydd. Chwithau a ddywedasoch na ddywedech pe lladdent chwi ?

Yr oedd dagrau Hetty yn awr yn ffrydio i lawr.

Arweinydd. Geiriau dewrion oeddynt. Ac yna wrth gwrs diolchodd i chwi a rhedodd i lawr yr heol.

Hetty. Mi addewais beidio dyweyd pa ffordd yr aeth, syr.

Arweinydd. O, ie, mi anghofiais; ond dywedwch imi ei eiriau olaf, ac ni thryblaf fi ddim rhagor arnoch.

Hetty. Dywedodd, Deuwch i lawr yn awr, gan mai dyma fy siawns ddiweddaf.

Yr oedd Hetty yn awr mewn ofn dispad. Llefarai'n uchel, a chuddiai ei gwyneb yn ei ffedog. Tybiodd y milwyr fod ganddynt yr oll oeddynt am wybod, a gyrasant eu ceffylau at lan yr afon.

Tra'r oedd Griswold yn aros yn yr amaethdy, yr oedd wedi cytuno ar arwydd gyda dynion y cwch. Os mewn trafferth, gosodai lian gwyn i fyny yn y ffenestr ei ymgnddfan, a phan welent y naill arwydd neu'r llall yr oeddynt i fod ar eu gwyliadwriaeth yn barod i'w helpu mewn angen. Cynted y marchogodd y milwyr i ffwrdd, dododd cyfeillion Griswold lian gwyn i fyny yn ffenestr y ty i rybuddio pobl y cwch, y rhai a rwyfasant allan i'r mor pan welsant y cotiau cochion yn gyru i lawr i'r afon.

Yr oedd y cwch, gyda dau ynddo bron allan o'r golwg, erbyn i'r milwyr dd'od at lan yr afon, a pharodd hyny iddynt feddwl fod Griswold wedi dianc.

Yn y cyfamser yr oedd efe yn ddyogel ac yn dawel nes daeth Hetty i geisio ganddo ddyfod i fewn i swper. Yna parodd iddi ofyn i'w mam osod yr arwyddlusern yn y ffenestr pan yr elai yn nos, a gyru bwyd a dillad iddo. Gwelwyd yr arwydd, daeth y cwch yn ei ol, a gwnaeth Griswold y goreu o'i ffordd i le o ddyogelwch. Mewn amser gwell, pan oedd y rhyfel drosodd, enwodd ei blentyn cyntaf yn Hetty Marvin, fel y gallai feddwl bob dydd am ei gyfnither ddewr, yr hon, trwy ei synwyr a'i geirwiredd oedd wedi achub ei fywyd.

S. E. C.

COLLI'R BLAENOR DA.

Canfyddais long odidog gynt, yn hwylio ger y lan,
Gwydr oedd y mor, cân oedd y gwynt, Paradwys oedd y fan ;
Ond trodd yn sydyn o amgylch penrhyn,
A ffwrdd o'm golwg ffodd !
Mi wylais ar ei hol yn hir, nes myn'd i ben y penrhyn clir,
A gweld yr hafn i'r hon y trodd !
Fel hyn y canfyddais ef yn hwylio un pryduawn,
O amgylch penrhyn angeu du, mewn dyfroedd cryfion iawn ;
Yn sydyn ffodd, collasom ef,
Ond troi a wnaeth i ddwyfol draeth
I mewn i borthladd nef y nef !

Dilynodd Iesu yn ddibaid mewn anwadalweh pur
Cyssondeb yn ei grefydd gaed o flwydd i flwyddyn hir.
Mae crefydd rhai fel comed wyllt, heb reol iddi'n bod,
Ei grefydd ef oedd fel yr haul bob dydd yn llanw ei rhod.
Crefyddol yn y teulu clyd ac yn y drystiog dref,
Crefyddol fyddai yn y stryd, fel yn nghynteddau'r nef.
Sefydlog oedd yn Seion gynt, fel derwen lonydd gre',
Trwy haf a gauaf, gwres a gwynt, yn ffyddlon yn ei le.

Galarodd Seion ddyddiau hir ar ol ei blaenor mad,
Fel praidd ar ol eu bugail pur, fel teulu ar ol eu tad.
Addfwynder ar ei dymher gaed, boddlonrwydd ar ei wedd,
Ac ni oddefai byth i ddim gythryblu ei fewnol hedd.

Os codai mor gorthrymder byd, parhaai ef yn llon,
Fel llestr ysgafn, nefol, clyd, fe godai gyda'r don ;
Fe godai gyda'r don i'r lan, a suddai'n ol yn fwyn,
Yn erbyn cwrs Rhagluniaeth nef, ni chodai air na chwyn.

Mae'r fordaith drosodd erbyn hyn, newidiodd donog fôr
Am hafn o anfarwol hedd o fewn i gariad Ior.
Mae'n canu heddyw ar y traeth, lle nid yw'r storm yn dod,
Lle nid oes gofid, poen, nac aeth, na chysgod hedd yn bod.

Fel afon ddofn cynyddai'i grefydd ef,
Wrth agosáu at for dedwyddyd nef ;
Preswyliai engyl yn ei hymyl hi,
Bob ochr blodeu rhinwedd geid ar daen,
Hi olchai lan cymdeithas ar bob tu,
A phan ymgollai yn ei bythol li
Gadawai'r byd yn burach nag o'r blaen.

'R oedd awr yn ei gymdeithas ef, fel awr ar un o draethau'r nef,
Yn nghlyw rhyw gerdd nefolaidd lon, yn hyfryd swn rhyw ddwyfol don.
Gadawodd ar ei ol i'r byd, esiampl lawn o ddwyfol hedd,
Gadawodd lwybr gwyn i gyd i lawr hyd borth y bedd.
Ei fywyd sydd fel perffaith ddol, a thrwy ei chanol lwybr cul,
Oh! rhodiwn ninau yn ei ol trwy orthrymderau fil.

Y Parch. William Thomas (Islwyn),—1832—1878.

NODYNAU GWASGAROG.

IESU DULCIS MEMORIA.

Nid wyf yn gwybod fod emyn Sant Bernard o Clairvaux yn adnabyddus i Brotestaniaid Cymru o un enwad. Y mae lluaws o gyfieithadau Seisnig. Detholir y penillion canlynol allan o'r Emyn fel y mae yn Llyfr Gweddi Gyffredin y Catholiciaid, a argraffwyd gan Rockliffe Duckwood yn Lle'r pwll (—Liverpool) yn 1835. Mae'r *title page* yn eisieu wrth y copi sydd genyf fi; ond llofnodir y rhagymadrodd gan Edward Metcalfe, Talacre (Tachwedd laf, 1835) Byddai yn ddyddorol gwybod pwy oedd Edward Metcalfe a pha un ai efe oedd cyfieithydd y llyfryn ai nad e. Mae y cyfieithad ar y cyfan yn dda iawn ac y mae'r llyfr yn ddyddorol, fel yn gosod allan syniadau y pabyddion gan un o honynt eu hunain ac nid gan un o'u gwrthwynebwyr. Rhyw 16mo yw o ran maint ac yn cynwys I—IV., 462 tdd.

Ganwyd Bernard gerllaw Dijon yn Burgundy yn 1091, a bu farw 1153, "wedi blino ar y byd ac yn barod i fyned i orphwys."

Melus yw cof am Iesu cu, I'r fynwes dyry hedd;
Melusach yw na mel i mi Ymborthi ar ei wedd.

Nid oes peroriaeth yn y byd Mor hyfryd iber i'r clyw,
Na dim difyrach ddaw i fryd Nag Iesu, gwir Fab Duw.

Dy gamrau, Iesu, sangaf mwy, Gan rodio'th lwybrau di;
Ac wylaf yn ddi baid a thaer, Nes gweni arnaf fi.

O Frenin serch, dy nefol dan Sy'n enyn flamau 'n nghyd;
Ac ar ol codi santaidd flys, Dyfyri hwn o hyd.

Dy bresenoldeb dysglaer hoff Draidd drwy'r cynneddfau i gyd;
Pob enaid welo hwn, bydd dim A'i boddio mwy'n y byd.

—*Gweddi Gyffredin yr Eglwys Lan Gatholig*, tud 356.

Q. Q.

CYMMANFA GANU ABERTAWE, 1891.

Mr. Gol.,—Yr wyf yn teimlo yn ofidus iawn i sylwi fod Cymmanfa Ganu fawr Abertawe wedi gadael teimladau anhapus ar ei hol.

Nid wyf yn achwyn ar Mr. Evans, Llandyssul, am geisio gwybodaeth oblegyd y cyfrifon yn nglyn â'r gymmanfa uchod, oherwydd os oes argraff trwyadl yn bodoli yn mynwes Mr. E. nad yw pethau wedi cael eu cario allan yn iawn, goreu pa gynted y gwyntyllir y mater.

Nid oeddwn wedi rhoddi fawr o sylw i'r cyfrifon, fel ag yr ymddangosasant yn yr Ymofynydd am fis Mehefin, nes darllen llith Mr. E. yn eich rhifyn diweddaf. Ac fel cadeirydd y cyfarfod yn Merthyr pan y penderfynwyd rhoddi 5 punt yr un i'r Arweinydd a'r Ysgrifenydd, yr wyf yn teimlo mai fy nyledswydd yw egluro y telerau ar ba rai y rhoddwyd yr arian iddynt.

Mae y gair *Gratuity* yn y *statement* fe ddichon dipyn yn anffodus, ac wedi rhoddi cyfle i Mr. E i ddadblygu ychydig lymder, ond yr wyf yn beiddio dweyd mai nid fel gratuity na chwaith fel tal am ei lafur y rhoddwyd yr arian i Mr. Jones, ond yn hytrach fel swm i'w ddigolledu am y treuliadau ag oedd wedi syrthio arno yn nglyn a'r *rehearsals* a gwaith y gymmanfa.

Pa un ag oedd y swm hwn yn ddigonol ai peidio nid wyf yn bwriadu datgan fy marn yn bresenol, ond sicr yw fod dadleu brwd wedi bod ar y mater cyn i'r swm gael ei benodi, ac nid wyf yn meddwl y bydd i ail agoriad y cwestiwn hwn ddwyn un lles i neb, ac yn sicr i'n achos ni yn Nghymru. O barthed i'r dafien, yr wyf yn barnu gyda Mr. E., nad yw yn hollol fel y dylasai fod. Byddai y 14s. 6ch am *brogramme*, a'r 2s. 6ch *hire of room* yn fwy priodol dan *statement No.* 2; ac fel y crybwylla Mr. E., dylai y *Printing*, £1 10s., a'r *Bill Posting*, 13s., fod yn *statement No.* 3, byddai hyn yn gadael mewn llaw y General Committee £3 17s, ac yn llaw yr Excursion Committee £5 6s. 4c. Nid wyf yn cytuno â Mr. E. fodd bynag y dylasai y ddau *statement* olaf fod yn un, am nad wyf yn ystyried fod hawl gan y General Committee i ymyraeth a'r Excursion fund.

A fyddai Mr. E. yn barod i hawlio rhan yn yr Excursion fund pe digwyddid fod colled yn nglyn a hi? Nid tebyg. Am y rheswm nad oedd ein cyfeillion yn Sir Aberteifi wedi bod ag un rhan yn y drafodaeth.

Mae'r ohebiaeth rhwng yr Ysgrifenydd a Mr. James yn profi fod Mr. Davies yn barod i weithredu ar ran pobl Ceredigion yn ogystal a phobl Morganwg o barthed i'r Excursions, ac os darfu iddynt wrthod gwasanaeth yr Ysgrifenydd, yr wyf yn methu a gweled ar ba dir y mae Mr. E. yn beio yr Ysgrifenydd, na chwaith pa fodd y mae yn hawlio rhan yn y *commission*.

Dywedodd Mr. D. E Jones wrthyf ei fod ef wedi llwyddo i gael *special train* ar delerau gwell nag oedd Mr. Evans wedi ei dderbyn, a hyny ar y dealltwriaeth fod y cyfeillion yn sir Aberteifi yn aberthu y *commission*.

Yr wyf yn sicr fod pobl Morganwg yn cydymdeimlo a'r cyfeillion yn Sir Aberteifi yn herwydd y pellder mwy oedd ganddynt i ddyfod i

Abertawe, ac y byddent yn barod i dalu rhyw ychydig, yn rhagor am eu tocynau er mwyn lleihau y draul o Geredigion, ond gan na ddarfu hyn ddyfod oddiamgylch, nid teg yw beio yr Ysgrifenydd am hyn, na chwaith grwgnach o herwydd yr ychydig bunnoedd sydd wedi eu sicrhau gan bobl Morganwg yn herwydd y drafodaeth.

O'm rhan fy hun byddai yn well genyf weled yr arian yn gyfangwbl yn cael eu trosglwyddo i ryw drysorfa deilwng, yn perthyn i'r enwad, megys trysorfa "Cymdeithas y dynion Ieuanc" na'u gweled yn achos o anghydfod yn ein plith ni fel Undodiaid.

LEWIS WILLIAMS.

THOMAS REES DAVIS.

Mr. Gol.,

Mewn llythyr ataf, dyddiedig Ionawr 9fed, wedi cyfeirio at y boneddwr uchod, mae fy nghyfaill Mr. W. James, B.A., Llandyssul, yn gwneuthur y sylwadau canlynol, y rhai y mae'n ddiamheu genyf a fyddant yn ddyddorol i lawer o'ch darllenwyr. "Yr wyf wedi cael tipyn o siarad a fy mam yn nghylch mam T. D. R., 'Mrs. Davis fach' fel yr arferid ei galw (yn ddiamheu i'w gwahaniaethu oddiwrth wraig yr hen Ddafis, yr hwn a fu'n byw un amser yn ymyl drws Llwynrhydowen. Fe fu mam yn yr ysgol gyda 'Mrs. Davis fach,' rywbryd tua 1822. Yr oedd yr ysgol mewn rhan yn ysgol wnio, ac y maegan mam heddyw sampler i ddangos, yr hon a wnaethpwyd ganddi yn yr ysgol. Nid yw yn cofio yn bresenol ond am ddwy o'r rhai fu'n cydysgolia a hi yn awr yn fyw, sef, Mrs. Davis, Maesymeillion, gynt Cwmdyllest, merch Gyfeile; a Mrs. Howells, Cwmduad, merch Gellifaharen, a modryb y diweddar John Jones. Eraill yn yr ysgol oeddynt, Mrs. Jones, Gellifaharen, merch Castellhywel; Mrs. Davis, Maengwyn, mam y doctoriaid, merch Pantrhedynen, &c. Yn ddiweddarach cymmerodd y teulu fferm Ffynon Llewelyn, ac oddiyno aethant i'r Amerig yn 1842. Sylwch fod mam yn yr ysgol cyn geni T. R. D."

(*Cyfieithad*). R. J. J.

Y DOWNGRED.

Y Downgrêd a anghredwn,—a'i addysg
Anffyddol ochelwn:
Breuddwydia, a haera hwn
Y daw enaid o Anwn!

Felly meddir y mae yr enwog "Hwfa Mon" yn traethu ei farn. Pechod anfaddeuol yn ngolwg rhai yw gobeithio y bydd i Dduw yn y diwedd gyrhaedd ei amcan a dwyn pawb i afael yr iachawdwriaeth. Tebyg fod Hwfa yn credu yn yr hen syniad na ddichon dedwyddwch yr etholedigion fod yn berffaith oddi eithr iddynt glywed yn barhaus ocheneidiau y colledigion. Mae y fam yn hapusach yn y nefoedd o

glywed llefain ei mab colledig yn uffern! Nid Cristionogaeth yn sicr mo hyn. Nid neb teilwng o'r enw Tad sydd yn trefnu tynged ei blant felly. Gwell yw syniad Dewi Wyn yn fy ngolwg i:

Gwybydd o law Dofydd Dad,
Nad yw cerydd ond cariad.—Q. Q.

ATEB ARAFAIDD Y WRAIG.

"Yr oeddwn wedi bod yn briod ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain," ebe boneddwr, "ac yn ystod yr holl amser hwnw nid oedd fy ngwraig erioed wedi llefaru gair croes wrthyf. Ond nis annghofiaf byth y tro cyntaf y darfu i mi ei cheryddu. Ar foreu Sul oedd, ac yr oeddwn wedi bod yn briod ddwy flynedd. Cefais fod botwm wedi myned oddi ar fy nghrys, a thaflais ef yn groes i'r ystafell.

"Dodwch fotwm ar y crys yna," meddwn mewn llais chwerw, Gwraig dda, Gristionogol oedd. Aeth i nol botwm a gwniodd ef, a dywedodd: "Maddeuwch i mi f'anwylyd, yr oedd genyf lawer i'w wneuthur y ddoe, ac anghofiais ef, ond ni chaiff ddygwydd byth etto.

"O!" ebe'r dyn, gan sefydlu ei lygaid ar ddarlun ei wraig anwyl, "bu ei geiriau mwyn bron tori fy nghalon. Gallaswn fyned ar fy mhenliniau i lawr o'i blaen, a gofyn ei maddeuant. Gwnaeth ddyn gwahanol o honof, ac mae'r byd wedi bod yn fyd gwahanol i mi oddi ar y mae hi wedi marw."

EGLWYSI GWEINION SIR GAERFYRDDIN.

Anwyl Syr,—Yn fy llythyr yn eich rhifyn diweddaf, ar dudalen 163, gwelaf ddau wall argraffyddol, y rhai ydynt yn andwyo ystyr yr hyn a ysgrifenais. Yn lle "foddhaol," yn llinell 2, darllener "*an*foddhaol," ac yn lle "efelychu," yn llinell 3, darllener "*cla*fychu."—Yr eiddoch, &c.,

E. Ceredig Jones.

CYMMANFA GANU MORGANWG.

Mae pwyllgor y Gymmanfa hon, bellach, wedi mabwysiadu y Llun cyntaf yn Mehefin fel y dydd ar yr hwn y cynnaliant yr wyl odidog a phoblogaidd hon; ac mae gair o ganmoliaeth, rwy'n meddwl, yn ddyledus i eglwysi y gwahanol enwadau yn y rhanbarth hon, am yr ymdrech ganmoladwy a wneir ganddynt i droi cyfeiriad meddyliau ein pobl ieuainc oddiwrth y dull isel a diraddiol yn yr hwn y mae tafarnwyr a darllawyr y gym'dogaeth am iddynt ei dreulio. Y dull sydd mewn bri gan yr olaf yw cynnyg gwobrau sylweddol am redeg; a phob mis bron sefydlant redegfeydd i ddynion a cheffylau ac asynod mewn rhyw faes cyfleus, ac i hwnw cymheilant bawb i ddyfod, gan awgrymu i lowyr a gweithwyr Morganwg mai trwy edrych ar y dwlni a ddygir yn mlaen

yno y gellir, yn fwyaf effeithiol, fwynhau y dydd a neillduwyd i amcanion mwy goruchel. Mae yr eglwysi ar eu heithaf yn ceisio gwrthweithio y gallu niweidiol hwn trwy gynnal eu cymmanfaoedd pregethu, a'u cymmanfaoedd canu, ac y mae yn gredit i anian grefyddol gweithwyr yr ardal fod y cyrddau hyn yn cael y fath gefnogaeth fendigedig ganddynt; nid oes unrhyw gymmanfa yn cael ei chynnal gan unrhyw enwad nad yw y capel neu y neuadd yn yr hwn y cynnelir hi yn orlawn o wrandawyr ydynt yn cymmeryd dyddordeb gwirioneddol yn y gweithrediadau. Hir, hir y parhaont i ymledaenu ac i arfer y dylanwad sydd ganddynt i roddi craig rhwystr ar ffordd y dylif dinystriol o arferion anfoesol ydynt yn gwneyd sarnfa o gymmeriad llawer dyn ieuanc sydd yn syrthio yn aberth iddynt; a gobeithio y gwnawn ni, fel enwad—"llai na'r lleiaf" yn mhlith enwadau'r wlad—fod yn hwyrfrydig iawn i laesu ein gafael yn ein cymmanfa ganu, oblegyd, er yr holl ddiffygion a ddichon fod ynddi, y mae wedi gwneyd, ac yn gwneyd, lles na allwn ni ddim o'i fesur. Yr ydym yn achwyn nad yw ein sefydliadau ddim yn llewyrchus, fod pobpeth yr ymgymerwn ni ag ef yn syrthio yn ysglyfaeth i'r darfodedigaeth; ac wrth ganfod y cynnydd araf a wnawn, a'r agwedd eiddil sydd ar y rhan amlaf o'n cynulleidfaoedd, mae ein calonau yn ymollwng ynom, ac yr ydym yn barod i roddi fyny mewn anobaith. Os mai hyn yw ein profiad, yr wyf yn credu fod y Gymmanfa Ganu yn eithriad gogoneddus. Oddiar ei sefydliad, mae hon, nid yn unig wedi dal ei thir, ond yn Morganwg ac yn Sir Aberteifi, y mae wedi dwyn ffrwyth ar ei ganfed, nes y mae, bellach, wedi cyrhaedd y cyfryw faintioli fel nas gweddir y bobl a gynniweiriant iddi yn un o'n capeli ni, a gosodir ni dan yr angenrhaid o estyn cortynau ein preswylfeydd trwy feuthyca capeli pobl ereill. Er yr addefwn nad yw caniadaeth ond un rhan o addoliad y cyssegr, etto, mae yn ddyledswydd arnom i wneyd ein goreu i ddiwyllio y rhan hono a'i gwneyd hi mor adeiladol i'n pobl ieuainc ag y byddo modd.

Fy ngorchwyl, Mr. Gol., wrth ddechreu oedd, nid ysgrifenu traethawd ar y gymmanfa, ac ar ein dyledswydd ni tuag ati, ond rhoddi adroddiad o'r hyn a gymmerodd le yn ein cyfarfod diweddaf yn Aberdar.

Fel y dywedais, dydd Gwyl Mabon Mehefin yw diwrnod pennodedig ein cymmanfa ni yn yr ardal hon; ond trwy fod yr wyl hono eleni yn dysgyn ar y Llungwyn, penderfynwyd, yn y gred y byddai hyny yn fanteisiol, i ohirio y cyfarfod hyd y Llun cyntaf yn Gorphenaf. Gan i amgylchiadau droi allan yn groes i'r dysgwyliadau, yr wyf yn credu i'r cyfnewidiad yn y dyddiad beru mwy o ddrwg nag o dda, nid nad oedd y gymmanfa yn llwyddiant mawr fel yr oedd; ond trwy daflu y cyfarfod fis yn nes yn mlaen, yr oedd y corau fel pe bacnt wedi blino canu yr un tonau byth a hefyd, ac fel canlyniad, yr oedd y teimlad hwn, yn nghyd a thywydd tesog yr haf, yn milwrio yn erbyn yr ysgolion cân. Hefyd, even i'r dyddiad gohiriedig ddod i ben, yr oedd trwst a berw etholiad cyffredinol we li ymdaenu dros y wlad, ac nid oedd gan neb hamdden i ddim arall ond darllen y papyrau newyddion, a chlustfeinio am y newydd o ffawd yr ymgeisydd hwn, ac anffawd yr ymgeis-

ydd arall. Ar ddydd y gymmanfa, yr oedd y teimlad etholiadol wedi cael ei ddirwyn i frwdiasedd angerddol; a thramwyid ystrydoedd Aberdar gan dyrfaoedd a ymddangosent fel pe buasent wedi gwallgofi bron, yn fawr eu haidd yn llusgo yr ymgeiswyr Rhyddfrydol ar hyd a thraws y dref, ac yn cael eu blaenori gan seindyrf pres, yn chwythu eu seiniau treiddgar, y rhai a aflonyddent yn fawr ein cyfarfod canu ni yn yr addoldy yn ymyl yr heol. Bu y berw hwn yn foddion i deneuo rhengoedd y cantorion ar y lloft, yn neillduol yn yr hwyr.

Er cyfleusdra a hwylusdod, buwyd yn ffodus, trwy garedigrwydd enwad parchus y Methodistiaid Seisnig, i gael benthyg capel y *Trinity*, gerllaw y Neuadd Ddirwestol, yn nghanol y dref—yr wyf yn gofyn eich maddeuant, Mr. Gol, yn nghanol "pentref" Aberdar. Mae Undeb Ysgolion y Dosparth hwn yn cynwys Aberdar (Trecynon a Highland Place), Cwmbach, Gellionen, Merthyr, Dowlais, a Choedycymmer. Pwrcasodd brodyr y Gellionen dren neillduol, yr hwn a'u dygodd i orsaf Aberdar ychydig fynydau wedi deuddeg o'r gloch, ac wedi cyrhaedd yno, gwahoddwyd hwy i ysgoldy perthynol i'r capel Undodaidd yn Highland Place, lle yr oedd digonedd o ymborth blasus wedi ei barotoi ar eu cyfer trwy garedigrwydd arferol y brodyr ydynt yn ymgyfarfod yn y capel hwn i addoli. Aeth pobl Merthyr a'r ardal, y rhai a gyrhaeddasant Aberdar tua'r un adeg a gwyr Gellionen, ar hyd y dref er mwyn "lladd amser" hyd ddau o'r gloch, pryd y bwriedid dechreu y cyfarfod cyntaf. Fel arfer, nid oedd ond ychydig o'r cantorion yn eu lleoedd mewn amser i ddechreu y cyfarfod yn brydlon; ond yn mhen hanner awr ar ol yr amser appwyntiedig, galwodd y cadeirydd—Mr. R. Bedlington—ar y Parch. James Shaw i fyned trwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth, yr hyn a wnaeth; ac ar ol araeth fer gan y cadeirydd, yn yr hon y croesawai efe y dyrfa brydferth a eisteddai o'i flaen ar ei dyfodiad i Aberdar, ac hyderai y byddai eu gwyl flynyddol yn llwyddiant mawr. Erbyn hyn yr oedd y capel helaeth yn orlawn—y cantorion ar y llofft, a'r gwrandawyr ar y llawr, a phawb ar flaen traed eu dysgwyliad i weled yr arweinydd, y cyfaill ffyddlon, Mr. David Davies, Gellionen, yn ymgymeryd a gwaith y dydd. Yn fuan wedi i Mr. Davies esgyn i'r pwlpud a dechreu ar ei orchwyl, deallwyd fod y canu o nodwedd uchel, ac yn tra rhagori ar ddim oeddem wedi arfer glywed yn ein hysgolion cân. Nid wyf, Mr. Gol., wedi fy mreintio a'r gyneddf gerddorol, neu buaswn yn rhoddi adolygiad manwl ar bob tôn fel yr oedd yn cael ei chanu, ond clywais, yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd yn ystod y cyfarfodydd, a hyny gan gerddorion o fri, fod y canu yn ardderchog ac yn adlewyrchu clod mawr ar fedr ac ar amynedd yr arweinydd yn enwedig pan ystyrir fod y capeli cyn belled y naill oddiwrth y llall, ac mor anhawdd i ddysgu y cantorion yn effeithiol. Yn gymysg a'r tonau, cafwyd anerchiadau yn rhyddiaithol ac yn farddonol, gan luaws o aelodau blaenllaw ein henwad ni, a chan foneddigion perthynol i enwadau ereill. Cymerodd y canlynol ran yn y cyfarfodydd, gobeithier y maddeuir i mi os annghofir enwau rhai:—Y Parchn. J. J. George, R. J. Jones, M.A., J. Shaw, Hathren Davies, Fisher Jones, Ifor Davies, D. Ayron Thomas,

Roberts (M.C.), y Mri. D. Eiddil Jones, Lewis Hopkin, Henry Morgan, Lewis N. Williams, Joseph Jenkins, Howell o'r Rhondda, a Evans, Aberdar. Yr oedd y Parch. Nestor Williams hefyd yn bresenol, er na chymmerodd ran yn y gwasanaeth.

Am chwech o'r gloch yn yr hwyr dechreuwyd yr ail gyfarfod, trwy ddarllen a gweddio gan y Parch J. J. George. Yn herwydd absenoldeb y llywydd appwyntiedig, sef Major Phillips, yr hwn a luddiwyd i fod yn bresenol gan helyntion yr etholiad, dewiswyd y Parch. R. J. Jones i gymmeryd ei le; ac yr wyf yn sicr, gan nad beth yw cymhwysderau y milwriad dewr i lywyddu cyfarfodydd o'r fath, nad ellid cael gwell cadeirydd na Mr Jones, yr hwn, trwy ei sylwadau amserol a phwrpasol, a wnaeth y cyfarfod yn un adeiladol dros ben. Yn y cyfarfod hwn drachefn, yr oedd y canu yn rhagorol, rhai o'r tonau yn cael eu hail ganu drosodd a throsodd, y dylanwad i'w deimlo yn ddiamheu yn fwy effeithiol yn herwydd presenoldeb yr offerynau cerdd, dygiad y rhai i fewn oedd yn gwneyd i fyny elfen newydd yn hanes ein Cymmanfa Chwareuid y crythau yn feistrolaidd gan fechgyn ieuainc o'r Hen-Dy-Cwrdd, ac o Highland Place, Aberdar, a'r *harmonium* gan y chwareuydd ardderchog, Mr. Richard Howells, gynt o'r Maesgwyn; ac mae rhan helaeth o lwyddiant ein Cymmanfa trwy y blynyddau i'w briodoli i'w fedr annghymharol ef gyda'r offeryn. Trwy gydweithrediad y gwahanol eglwysi dygwyd i derfyniad Gymmanfa odidog yn mhob ystyr; ac yr wyf yn meddwl na ellir canmol gormod ar Mr. Davies, yr arweinydd, am ei amynedd a'i ffyddlondeb ymroddedig gyda'r cantorion. Ymwelodd a'r gwahanol ardaloedd amryw droion, a gweithiodd yn galed iawn o'r dechreu i'r diwedd, a gallwn gymhwyso y ganmoliaeth, er nid i'r un graddau, efallai, i'r cantorion oll.

Carwn awgrymu un gwelliant erbyn y cyfarfod nesaf,—hoffwn yn fawr iawn weled mwy o barodrwydd yn ein gweinidogion a'n gwyr lleyg i ddyfod yn mlaen yn ewyllysgar i wneyd yr hyn a allant er cael Cymmanfa dda. Cymmered ein cyfeillion yr awgrym yn garedig. Dyna fy ysgrif I, Mr. Gol., ar Gymmanfa ragorol 1892, a hyderaf yn fawr y bydd y Gymmanfa nesaf yn well etto, os oes modd.

UN OEDD YNO.

Manion ac Hanesion.

PONTYPRIDD.—Mae yr achos Undodaidd yn y lle hwn yn parhau i fyned ar ei gynnydd, cynnulliadau lluosog yn ymgyfarfod bob Sul yn y neuadd lle cynnelir y gwasanaeth, a dyddordeb dwfn yn cael ei deimlo yn y mudiad. Dydd Sul, Gorphenaf 10, traddodwyd pregeth Gymreig—y gyntaf yn iaith yr hen wlad—gan y Parch. J. Hathren Davies; a chan fod y gwasanaeth hyd hyny wedi ei ddwyn yn mlaen yn Saesneg, yr oeddem yn tybio na fuasai y gynnulleidfa y prydnawn Sul hwnw mor lluosog ag yr arferai fod. Cawsom ein siomi, a theimlem a buasai yn ysprydoliaeth o'r newydd i ni gael cystal gwrandawiad bob Sul ag a gawsom y dwthwn hwnw; daethai y bobl o bob cwr o'r Cwm; ond yr oedd,

serch hyny, rai yn absenol y dysgwyliem yn ddios eu gweled yno; amgylchiadau, o bossibl, yn eu rhwystro. Ar yr 17eg o'r un mis, y Parch. Nestor Williams oedd yn gwasanaethu; a'r 24ain, y Parch. T. Lloyd-Jones, o Lerpwl. Digon tebyg y bydd genym ragor i ddweyd am y cyfarfodydd hyn yn ein rhifyn nesaf.

Cymmanfa y Plant.—Carwn alw sylw ein cyfeillion etto at y Gymmanfa hon, a gynnelir yn Mlaengwrach, ar y Llun cyntaf yn Medi. Gobeithio fod y plant yn gwneyd cynnydd boddhaol gyda'r program, ac y ceir *outing* pleserus pan ddaw'r adeg. Ati, gyfeillion.

Coleg Caerfyrddin.—Terfynodd yr arholiad blynyddol o'r Coleg hwn ar y 30ain cynfisol, pryd y cafodd dros £100 mewn gwobrau eu rhanu rhwng y myfyrwyr llwyddiannus, yn mhresenoldeb cynnulliad lluosog. Cymmerwyd y gadair gan y Parch. T. L. Marshall, Ysgrifenydd y Bwrdd Presbyteraidd. Yn nghwrs araeth adeiladol, y cadeirydd a ddywedodd fod yn mryd y Bwrdd i helaethu adeilad y Coleg, yr hyn a dderbyniwyd gyda chymmeradwyaeth y myfyrwyr. Gwnaeth siaradwyr ereill gyfeirio, gyda phleser, at y dadblygiadau a allasai ganlyn o hyny. Anerchwyd y cyfarfod gan yr arholwyr—Mr. Talfourd Ely, M.A., aelod o Brif Ysgol Llundain, a nai i'r enwog Farnwr Talfourd; Proffeswr Lewis, M.A., o Aberystwyth; a'r Parch. W. Griffiths, Ph.D.,B.D., gynt o Goleg Yale, America, a'r hwn sydd newydd ddyfod drosodd oddiwrth yr Annybynwyr at yr Undodiaid; Principal Evans, M.A., a'r Proffeswr Moore, B.A. Yr oedd yn ymddangos fod y flwyddyn wedi cael ei nodi gyda pherffaith unfrydedd, ac er fod llawer o afiechyd wedi bod yn mhlith y myfyrwyr, yr oedd y gwaith yn hynod foddhaol. Fel yn y blynyddau gynt, rhoddodd Miss Sharpe, o Highbury, £10 mewn gwobrwyon am wybodaeth Feiblaidd, y rhai a ennillwyd—1, H. J. Phillips (Pencader); 2, James Davies (Mydroilin), a John Davies (Nebo), yn gydradd. Hefyd, rhoddodd Dr. Davies, Maesteg, £5 mewn gwobrau am wybodaeth Saesneg, y rhai a ennillwyd yn y dosparth hynaf gan Ben. James a Joseph Walters; dosparth ieuengaf—1, Rowland Hughes (Dolyddelen); 2, T. Arthur Thomas (Cwrtnewydd). Aeth saith o'r myfyrwyr i fyny am arholiad Prif Ysgol Llundain—un o honynt am y gradd o B.A. Derbyniodd y chwech myfyrwyr oeddynt yn ymadael y tystysgrifau arferol. Yn mhlith y myfyrwyr sydd wedi eu derbyn ar brawf y mae Mr. T. Jenkins, Llanbedr, a Mr. Lewis Williams, Llanwnen, y rhai sydd yn gwneyd i fynu rif y myfyrwyr Undodaidd yn saith. Bydd yr eisteddiad nesaf yn dechreu ar y 6ed o Hydref.

Cynnyg ar gyfieithu Emyn rhif* 138 o *Emynau o Fawl a Gweddi*. (* Duw dysg i'm brynu f' amser, &c.).

My God teach me to value
My time, and spend it right;
Thy love let be my study
From early morn till night;
Hence to my grave support me
With Thy eternal hand,
At last resembling Jesus,—
Lead me to happy land.

Glais. James Evans.

AIL FYWYD.

Onid oes mewn llindysyn,—a'i fer oes
Wrth farw'n ei blisgyn,
A chodi yn iach wed'yn,
Eglurhad goleu ar hyn?

—*Y Parch. W. Williams, Caledfryn*, 1801—1869.

Y CWMWL.

Rhodd ddirfawr i ddaearfyd,—yw gemog
Gwmwl yr wybrenfyd;
A'i fraich hael ddifrycheulyd
A olcha ben balch y byd.

Dyfed.

Y MAE AMCAN I'N GOFIDIAU.

Ni ddaw ing yn ddi angen—o law deddf
Tra deil Duw yr awen;
Wele'r Llaw tu ol i'r llen—
Ni bydd aberth heb ddyben.

Tudno.

Os mewn amheuaeth beth i'w wneyd, rheol dda fydd i chwi ofyn, beth ddymunech dranoeth eich bod wedi ei wneyd. —*Syr John Lubbock.*

Bob blwyddyn ar adeg rhedegfeydd ceffylau ceir hanes am ladradau ac am hunanladdiaid fel canlyniad. Syn genym glywed fod y rhedegfeydd hyn yn dyfod yn boblogaidd gyda rhai crefyddwyr yn siroedd Caer ac Aberteifi.

Ryw ddydd cawn wybod a ddeall paham y gwrthodwyd y bara i ni a phaham y collwyd dwfr y bywyd pan ar fin ein gwefusau. Yn y cyfamser, 'does genym ond hyderu a rhyfeddu ac aros,

Gwlad Babyddol iawn yw Ffrainc, a dywedir fod y Beibl yn llyfr anadnabyddus iawn yn mhlith lluaws ei phobl. Rhyfedd na bai'r pwlpud yn llefaru'n fwy croyw yn erbyn rhyfel, a'n trethdalwyr yn gwylio na fyddo llyfrau y Jingo yn cael eu gwneuthur yn llyfrau ysgol i'r plant.

Marwgofion.

Mai 27, yn 7 mis oed, bu farw Margaret, merch Mr. a Mrs. Lewis, Greenwell, ger Llanbedr. Claddwyd yr un fechan y dydd Llun canlynol yn Capelygroes. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur, a dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr.

Mehefin 4, yn 7 mis oed, bu farw Evan James, Blaencathal. Claddwyd ef yn Pantdefaid y dydd Mawrth canlynol. Gweinyddodd y Parch T. T. ar yr achlysur.

Mehefin 8, yn 57 oed, bu farw Thomas Jones, Riverside, Pontshân, Llanddysul. Hebryngwyd y cyfaill ymadawedig i'w fedd yn mynwent Pantdefaid y dydd Sadwrn canlynol. Daeth torf fawr o bobl yn nghyd i'r gladdedigaeth, a phregethodd y Parch. T. T. yn y capel. Gadawodd weddw a dau o blant mewn galar ar ei ol, ond cofier y geiriau, "Dros enyd fechan ni 'madawn."

Mehefin 12, bu farw merch fechan Mr. a Mrs. Phillips, Windsor Street, Aberdare, yn bedair wythnos oed. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. J. J., a chladdwyd hi yn mynwent eglwys Penderyn, dydd Gwener.

"Fe'i cipiwyd hi
I wlad lle nad oes cwmwl du
Yn cuddio'i nen, na storom arw
I'w chlywed byth, na neb
O'i mewn yn ofni marw,"

Gorphenaf 9, Daniel Thomas, Barley Mow, Llanbedr, yn 82 mlwydd oed. Brodor o ardal Llanddysul oedd Daniel Thomas, ond treuliodd ran fawr o'i amser yn nghymmydogaeth Cellan a Llanbedr. Llanwodd y cylch y cafodd efe ei hunan ynddo yn y byd yma yn ffyddlon a gonest, a byddai pawb o'i gydnabod yn hoff iawn o hono fel dyn hynod ddiniwed a chymwynasgar. Ni ddaeth i'w ran ond ychydig o gyfoeth y byd hwn, ond cafodd ei ddonio ag iechyd rhagorol, a gweithiodd yn galed drwy ei oes hyd nes y goddiweddwyd ef gan ddyddiau henaint. Ni chafodd yn ei ddiwedd ond cystudd byr ac ysgafn, ac yr oedd ei farwolaeth yn debyg i blentyn bach yn myned i gysgu ar arffed ei dad neu ei fam. Bu'n aelod ffyddlon a dirodres o eglwys Caeronen am flynyddoedd lawer, ac yn unol a'i ddymuniad claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar ddydd ei angladd gan y gweinidog. Gadawodd ar ei ol mewn galar, weddw a phedwar o blant, heblaw perthynasau ereill.

Gorphenaf 17, John Albert, baban Thomas a Margaret Davies, Dover's Road, Llanbedr, yn bythefnos oed. Claddwyd corff y bychan yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd yn ei angladd gan y gweinidog.

Y DIWEDDAR MR. DILLWYN, A.S.

Dillwyn i'r funyd ola'—ymladdai
Am lwyddiant Hen Walia;
Un brwd, dewr, oedd ein brawd da,
A'i rinwedd a'i corona.

Hyd elor fe fu Dillwyn—yn onest
Yn nanedd y gelyn,
Gwnai edrych yn ddiddychryn,
Trwyadl heb un dadl fu'r dyn.

Urddasol gwrol garwr—y genedl
Fu'r gonest Ryddfrydwr,
Hen Walia dda wylai ddwr
Pan gwympodd y pengampwr.

Yn ddi-ildio dros gydraddoldeb—bu'n
Ddiball ei ffyddlondeb;
Chwithdod deimlir yn hir heb
Wenau'r hen onest wyneb.

Glais. JAMES EVANS.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.